

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#GwasanaethCyhoeddusCymru

Adroddiad Blynyddol 2018-19



Cynnwys

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol 2018-19. Fe'i lluniwyd ar ffurf llinell amser sy'n amlygu ein prif gyflawniadau fesul cyfnod tri mis.

Trosolwg Jo	3
Ebrill – Mehefin 2018	4
Gorffennaf – Medi 2018	6
Hydref – Rhagfyr 2018	8
Ionawr – Mawrth 2019	10

Ewch i'n gwefan i gael gwybod rhagor amdanom ni, y gwaith a wnawn, gyda phwy rydym yn gweithio a'n gwerthoedd:

gov.wales/academiwales

Trosolwg Jo



Hydref – Rhagfyr 2018

Yn nhrydydd chwarter 2018, neu'r tymor cynadledda fel y'i gelwir yn aml, bu ein Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn dechrau eu lleoliadau cyntaf a bu'r tîm Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol yn treulio wythnosau datblygu pwrpasol yn y Canolbarth a'r Gogledd. Cynhelir Cynhadledd Flynyddol Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) yn ystod mis Tachwedd a hon yw ein her flynyddol i'r rheini sy'n gweithio mewn swyddi arloesi a moderneiddio.



Ebrill – Mehefin 2018

Wrth i'r flwyddyn gyflenwi newydd ddechrau, roedd tîm Academi Wales wrthi'n ddyfal yn dechrau'r cyflenwi ar gyfer y 12 mis i ddod. Cyhoeddwyd amserlen brysur o raglenni agored a dosbarthiadau meistr a dechreuodd y prysuro anochel wrth nesáu at yr Ysgol Haf. Dechreuodd ein hymgyrch arwain yn llwyddiannus ac roedd 'Arwain drwy Ddewis – Dod yn Arweinydd Disgybledig Bwriadol' ar ei anterth, fel sy'n amlwg yn llwyddiant yr Ysgol Haf a'r dysgu a rannwyd gan arweinwyr traws-sector o bob rhan o Gymru.



Ionawr – Mawrth 2019

'Mae'r Gaeaf yn Dod' yn ystod chwarter olaf y flwyddyn – yr Ysgol Aeaf, hynny yw, a gofynnwyd i arweinwyr eleni dderbyn 'Yr Her Arwain' a throi o fod yn 'effeithlon i benigamp'. Yn ystod y gaeaf hefyd, bu timau Academi Wales yn cynnal sesiynau paratoi at Brexit ledled Cymru i gefnogi'r gweision cyhoeddus hynny mewn swyddi craffu. Wrth i rai o'r heriau hynny symud ymlaen i 2019, edrychwn ymlaen at fodloni'r rhain o ddifrif yn Academi Wales, fel bob amser.





Gorffennaf – Medi 2018

Ni arafodd tîm Academi Wales o gwbl yn ystod yr haf ac, yn ystod y chwarter hwn, buom yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y Sector Cyhoeddus i gyflenwi dosbarthiadau meistr, sesiynau sgiliau a gweithgarwch newid ymddygiad arwain. Gan weithio gyda Cholegau Addysg Bellach, Prifysgolion a'r sector preifat, achubom ar y cyfle i ymestyn a herio unigolion, timau a sefydliadau.

Cipolwg ar ein blwyddyn

Cyllideb
£1.2m



Cost gyfartalog

i gyflenwi yn gywerth â

£96.60

y
cynrychiolydd



Cyflenwyd



o ddigwyddiadau,
gweithdai, cyrsiau
a chynadleddau



5,348

o ddilynwyr Twitter,
sef

19%

o gynnydd 2017-18

Gwelwyd ein fideos

 **YouTube**

21,500

gwaith a chafwyd

130,000

argraff

Ebrill – Mehefin 2018

Ysgol Haf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018

Un o'r digwyddiadau allweddol i'r tîm Talent ac Olyniaeth oedd 13eg Ysgol Haf flynyddol Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018.

Roedd y digwyddiad hwn yn cefnogi datblygiad arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus ac fe'i cyflenwyd rhwng 25 a 29 Mehefin 2018 ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

Y thema ar gyfer 2018 oedd 'Arwain drwy Ddewis – dewrder, peryglon bod yn arweinydd'. Amrywiodd y prif gyflwyniadau o 'Yr Arweinydd Ymwybodol – datblygu opsiynau a gwneud dewisiadau bwriadol', 'Medr Chwerthin a Chyfathrebu'; ac 'Arweinyddiaeth Dosturiol ac Ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus o Ansawdd Uchel'.



Bu'r gweithdai'n archwilio themâu megis 'Gorfalchder' a 'Hybu gallu eich sefydliad drwy 'Ddull Gwrol'.

"Wythnos YSBRYDOLEDIG! Rwyf wedi cwrdd â phobl anhygoel a diddorol sydd, ynghyd â'r siaradwyr, wedi newid fy marn, nid am waith yn unig ond am fywyd."

Un o gynrychiolwyr yr Ysgol Haf, 2018

Penawdau

- 231 o gynrychiolwyr yn cynrychioli 77 o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru
- 10 o brif siaradwyr sy'n enwog yn rhyngwladol
- 15 o weithdai trwy brofiadau, 18 o grwpiau wedi'u hwyluso a 7 hyfforddwr gweithredol
- Opsiwn i ennill achrediad tuag at gymhwyster ôl-raddedig.

"Mae'r wythnos yn Ysgol Haf Academi Wales wedi bod yn brofiad trawsffurfiol allweddol yn fy mywyd a'm gyrfa."

Un o gynrychiolwyr yr Ysgol Haf, 2018

Gwobrau Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Ym mis Mai, daeth 100 o ymarferwyr gwelliant parhaus i'r digwyddiad clodfawr hwn ym Mharc Margam. Cawsant y pleser o wrando ar gyn-chwaraewr pêl-droed rhyngwladol Cymru yn siarad, sef yr Athro Laura McAllister, a ddaeth i brocio'u meddyliau o dan y teitl 'Ar bwy sydd angen llond tîm o Gareth Bales? Pam mae amrywiaeth yn dda i bawb'.



Aeth y wobwr eleni am gyfraniad eithriadol at Welliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus i Gyngor Sir Fynwy, ac fe'i casglwyd gan Paul Mathews a Lisa Knight-Davies, i gydnabod eu gwaith gwyb dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig i gadeirydd grŵp llywio Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan, Tony Mizen, am ei waith yn sefydlu ac yn esblygu AWCIC.

Cydweithio Deallus:

Lansiwyd ein cyhoeddiad Hau Hadau newydd 'Cydweithio Deallus – gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth' yn yr Ysgol Haf eleni.

Yn y rhifyn hwn o Hau Hadau, amlinellir y potensial i wneud gwahaniaeth go iawn drwy gydweithio gan gymhwyso syniadau o ymchwil ac ymarfer, mewn modd myfyriol a disgybledig, pwyllog ac arbrol.

Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Roedd chwarter cyntaf y flwyddyn yn brysur iawn, gyda'r canolfannau asesu a'r cyfweiliadau ar gyfer Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan gyntaf y byd.

Cafwyd 1,060 o geisiadau ar gyfer y rhaglen, a hwythau'n dod o bob cwr o Gymru, o Loegr a thramor.

Gwahoddwyd 144 o ymgeiswyr wedyn i fynychu canolfannau asesu dwyieithog ledled Cymru.



Yn dilyn y ganolfan asesu, gwahoddwyd 55 o ymgeiswyr i gyfweiliad terfynol a chynigiwyd lleoedd amodol i 16 o raddedigion disglair ar y Rhaglen, gyda rhestr gref iawn wrth gefn o 12 o raddedigion.

Rhaglen Datblygu Arweinwyr Clystyrau Gofal Sylfaenol

Ym mis Ebrill, dechreuwyd ein hail garfan yn cefnogi Arweinwyr Clystyrau Gofal Sylfaenol. Wnaeth chwe arweinydd o bedwar Bwrdd Iechyd yn rhanbarthau De a Chanolbarth Cymru cymryd rhan, gan ymgymryd â Dysgu Gweithredol a Choetsio dros gyfnod o 8 mis.

Yn rhan o'r rhaglen, caiff yr Arweinwyr Clwstwr eu cefnogi a'u mentora hefyd gan ymarferwr Datblygu Sefydliadol i gynllunio a hwyluso cyfarfodydd Clwstwr effeithiol; eu cynorthwyo i gael eu clwstwr i gymryd rhan, a sicrhau gwelliannau arloesol i'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau gofal sylfaenol.

Dosbarth Meistr: Dr Margaret Wheatley 'Arweinyddiaeth Synhwyrol'

Parhaodd ein partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd i 2018 gyda Dosbarth Meistr Academi Wales 'Arweinyddiaeth Synhwyrol: Sut mae adfer creadigrwydd, capasiti a phosibiliadau i'n gwaith'.

Agorwyd y Dosbarth Meistr gan Leighton Andrews, Athro Ymarfer mewn Arloesi ac Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fe'i cyflenwyd gan Dr Margaret Wheatley. Denodd y digwyddiad dros 80 o arweinwyr lefel weithredol ac uwch arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru.



Sesiwn Datblygiadau Bwrdd Pwrpasol

Cynlluniwyd a chyflenwyd sesiynau datblygu bwrdd pwrpasol ar gyfer gweithredwyr Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd y sesiynau'n cynnwys Dangosydd Math Myers-Briggs (MBTI) Cam 2 a'r rhaglen Profiad Uwch Arwain wedi'i theilwra, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer diagnostig i lywio perthynas waith effeithiol gan arwain at berfformiad gwell.

Gorffennaf – Medi 2018

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Bwrdd Seminarau Arbenigol

'Gweithio mewn Partneriaeth: Dal y Drych i fyny'

Cyflenwyd y seminarau hyn yng Ngogledd a De Cymru i uwch arweinwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, ac fe'u datblygwyd a'u cyflenwyd ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, mewn partneriaeth â Chyddfederasiwn GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a WCVA.



Bu'r digwyddiadau'n canolbwyntio ar 'ddal y drych i fyny' i ystyried cynllun a chyflenwad gwasanaethau i ganolbwyntio ar yr unigolyn, a'r allwedd oedd cyflenwi gwasanaethau diogel ac effeithiol mewn partneriaeth i ddinasyddion yng Nghymru.

"Roedd yr ymarfer chwarae rôl theatr yn ardderchog, gan arddangos tosturi, diwyllianau sefydliadol cymhleth; ni ellid cyflawni hynny drwy ddull traddodiadol o ddefnyddio astudiaethau achos."

Cynrychiolydd Arweinwyr Bwrdd a Llywodraethu

Dr Tim Williams – Dosbarth Meistr

Cyflenwyd y sesiwn hon i uwch arweinwyr ledled Cymru a bu'n trafod y gwersi y gellir eu dysgu o'r esiamplau gorau a gwaethaf o werthuso seilwaith.

Dysgodd y cyfranogwyr sut mae'r ymgais at lywodraethu mwy ymatebol, mwy seiliedig ar ddata, yn yr oes ddigidol yn effeithio ar ymgysylltu a darparu seilwaith yn y gymuned ac yng Nghymru gyfan.

Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Ym mis Gorffennaf roedd yn bleser gennym weld un ar hugain o gyfranogwyr ein Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol (MLP) yn graddio â Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Arfer Proffesiynol (Arweinyddiaeth Glinigol). Achredir yr MLP mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Cwblhaodd Arweinwyr Meddygol ar Garfan 6 eu rhaglen hefyd yr haf hwn, gan orffen â chyflwyniadau ar eu prosiectau effaith ar y claf i gynulleidfa o randdeiliaid a noddwyr Bwrdd Iechyd.



Cyflwyniadau yw rhan o'r asesiad ar gyfer y Dystysgrif Ôl-raddedig ac arddangoswyd sgiliau arwain ardderchog a gwir arloesi mewn gwasanaeth. Roedd enghreifftiau o newidiadau arfer yn cynnwys gwell mynediad at wasanaethau Meddygaeth Genhedlol-Wrinol, asesiadau iechyd corfforol o well ansawdd mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl a rheoli cleifion obstetrig yn effeithiol drwy raglen genedlaethol Obs Cymru.

Edrychwn ymlaen at weld cyfranogwyr Garfan 6 yn seremoni raddio'r flwyddyn nesaf.

Yn 2018-19 cyflenwyd 400 o ddigwyddiadau, gweithdai, cyrsiau a chynadleddau.



Gwobrau Arwain Cymru

Ceisia Gwobrau Arwain Cymru gydnabod a dathlu cyflawniad personol ymhlith arweinwyr eithriadol yng Nghymru.

Cred Academi Wales yn y gyfres amrywiol o dalentau sy'n eiddo i arweinwyr yng Nghymru, ac mae'n falch o gefnogi dau gategori:

- gwobr 'Arwain yn y Sector Cyhoeddus' a enillwyd gan: Viv Buckley, Dirprwy Bennaeth, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr;
- 'Gwobr Anrhydeddus' a enillwyd gan yr Athro Martin Kitchener, Deon Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd.

Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Yn dilyn rhaglen gynefino ym mis Medi, dechreuodd y graddedigion eu swyddi. Yn ystod y cynefino, clywodd y graddedigion gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Shan Morgan a Chomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe.

Cychwynnodd y graddedigion ar eu siwrneiau personol o ddarganfod a datblygu, gan feithrin eu cryfderau ymhellach a chydabod y meysydd lle gallant dyfu.



Coleg Pen-y-bont ar Ogwr – 'Cyflawni hyd eithaf eich gallu' – Diwrnod Lles

Nod y digwyddiad oedd cefnogi eraill i 'Cyflawni hyd eithaf eu gallu', cydnabod bod iechyd corfforol a meddyliol da yn hollbwysig i arweinwyr, a darparu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gallai staff effeithio'n gadarnhaol ar eu hunanreolaeth. I wneud hyn, aethom ati i gyflenwi dau weithdy:

'Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol': Yn y sesiwn ymarferol a rhyngweithiol hon, bu'r staff yn dysgu sut mae defnyddio offer Seicoleg Gadarnhaol.

'Deall Gwydnwch Meddwl': Nod y sesiwn hon oedd dod i ddeall sut mae rheoli'r pwysau a'r straen a ddaw law yn llaw â chyflenwi perfformiad uchel, ac arwain yn gadarn o dan amgylchiadau anodd a heriol.

Prif ffigurau

Cyllideb	£	£1.2 miliwn
Cyfanswm y cynrychiolwyr		12,341
Cost y pen		£96.60

Digwyddiad 'Dysgu a Rhannu'

Cynhaliodd Dŵr Cymru y digwyddiad hwn ar gyfer Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan. Canolbwyntiodd y sesiwn ar eu dull a arweinir gan ymddygiad, gyda'r nod o greu diwylliant o welliant parhaus ar draws yr holl sefydliad i gyflenwi perfformiad busnes gwych a phrofiad eithriadol i'r cwsmer.

Hydref – Rhagfyr 2018

Arwain Bwrdd a Llywodraethu

Gweithdai 'Byrddau Iach' gydag uwch arweinwyr a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Cynhaliwyd pedair sesiwn gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Bwrdd yr Academi Addysg Genedlaethol a grwpiau uwch arweinwyr.

Roedd y sesiynau'n rhoi golwg cyffredinol ar fyrdau iechyd a'u gwaith, ac yn egluro camau i'w gwella.

Sesiynau Datblygu Bwrdd Pwrpasol

Hwyluswyd sesiynau datblygu bwrdd pwrpasol gyda Thîm Gweithredol Byrddau Iechyd yn GIG Cymru yn rhan o gyfres o ymyriadau datblygu a gyflenwyd dros 18 mis.



Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Dechreuodd y graddedigion eu lleoliadau cyntaf, a gosod eu hamcanion. Cafodd prosiectau eu mireinio, a chanlyniadau clir eu diffinio.

Ym mis Rhagfyr, cyfarfu'r sefydliadau croesawu er mwyn rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd.

Dechreuodd y graddedigion hefyd astudio tuag at Radd Meistr mewn Arwain a Llywodraethu, gyda ffocws cryf ar roi theori ar waith, ac elfen o ddysgu seiliedig ar waith.



5,348 o ddilynwyr – 19% o gynnydd ers 2017-18

Newid a Gwelliant Parhaus

Cynhaliwyd ein 7fed Cynhadledd Flynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan ym mis Tachwedd o dan y thema 'Trawsffurfio Gwasanaethau Cyhoeddus – Cymunedau, Cydweithio a Gwelliant Parhaus'.

"Cynhadledd wych gyda siaradwyr ysbrydoledig a chyfleoedd rhwydweithio. Y neges allweddol a gyflëwyd imi oedd pwysigrwydd cynnwys y cwsmer yn fwy."

Un o gynrychiolwyr Cynhadledd AWCIC 2018

Roedd y digwyddiad yn gyfle i gynrychiolwyr archwilio trawsffurfiad a thrafod sut mae cymunedau sy'n cydweithio ar sail nodau cyffredin yn defnyddio technegau Gwelliant Parhaus i ffurfio'r atebion.

Wedi'i gadeirio gan Rita Singh, Cyfarwyddwr Maint Cymru, Tim Smit, Is-gadeirydd Gweithredol a Chyd-sylfaenydd Prosiect Eden oedd prif siaradwr y digwyddiad. Clywodd y cynrychiolwyr gan enillwyr gwobrau AWCIC a buont yn cyfranogi mewn gweithdai yn ymdrin â phynciau fel 'Gwelliant darbodus mewn gwasanaethau cyhoeddus' a 'Momentau Hudol a Newid Mwyaf Sylweddol – dysgu gyda'n gilydd drwy adrodd storïau'.



Gwelwyd ein fideos YouTube 21,500 gwaith a chafwyd 130,000 argraff



Wythnosau Datblygu Arweinwyr Gogledd a Gorllewin Cymru

Roedd tîm Academi Wales ar y ffyrdd eto yn ystod mis Tachwedd i gyflenwi Wythnosau Datblygu Arweinwyr Gogledd Cymru a Gorllewin Cymru. Buom yn gweithio gydag arweinwyr datblygu ar draws sectorau i gyflenwi digwyddiadau wythnos.

"Gallwch chi wneud unrhyw beth os ewch chi'r tu hwnt i'ch ffiniau cyffyrddus!"

Un o gynrychiolwyr Datblygu Arweinwyr

Roedd yn wythnos lawn dop o gyfleoedd dysgu, coetsio a rhwydweithio i'n cydweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru gyda datblygiad fel: 'Adeiladu Perthynas Broffesiynol drwy Ymddiriedaeth', 'Deall Gwydnwch Meddwl', 'Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol' a 'Deallusrwydd Emosiynol'.

I'n cydweithwyr yng Ngorllewin Cymru, gyda chymorth Partneriaeth Hyfforddiant Awdurdodau Lleol Gorllewin Cymru, cyflwynwyd ein sesiynau poblogaidd: 'Deall Gwydnwch Meddwl', 'Ymddiriedaeth', 'Arwain ar Iâ', 'Magu Perthynas Effeithiol', 'Deallusrwydd Emosiynol' a 'Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol'. Roedd y ddwy wythnos yn llwyddiant ysgubol.

24% o gynnydd mewn defnyddwyr newydd yn cofrestru i'n gwefan

Cynhadledd Coetsio

Herio Cyfyngiadau

Denwyd 61 o goetswyr i'n hail Gynhadledd Coetsio Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, 'Bod yn Bresennol, Coetsio yn y Fan a'r Lle', ym mis Tachwedd.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar ddatblygu sgiliau ac offer ymarferol i'w defnyddio ar gyfer twf personol i gefnogi datblygiad eraill, yn benodol gyda choetswyr a'r rheini sy'n cael eu mentora.

Roedd yn gyfle i'r cynrychiolwyr rannu arfer da o bob rhan o Wasanaethau Cyhoeddus Cymru.



Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Lansiwyd seithfed garfan y Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol ym mis Hydref 2018.

Nod y rhaglen yw datblygu dealltwriaeth o reoli effeithiol, yn ogystal â hyrwyddo gallu i wella gwasanaethau ac arweinyddiaeth i glinigwyr.

Mae'r garfan hon yn cynnwys 7 Cymrawd Arweinyddiaeth Glinigol Deoniaeth Cymru ac 16 o Uwch Ymgynghorwyr a Chyfarwyddwyr Clinigol o bob cwr o Gymru.

47% o gynnydd o ran y nifer sydd wedi gweld ein holl dudalennau gwe

Ionawr – Mawrth 2019

Hyfforddiant Newid a Gwelliant Parhaus

Daeth 36 o gynrychiolwyr o sefydliadau yn cynnwys Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin i weithdy Cwmpasu Ymarferwyr Gwelliant Parhaus yng Ngorllewin Cymru.

Beirniadu gwobrau blynyddol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Yn gyson â chyd-redeg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi gofyn eleni i enwebwyr ystyried sut mae eu prosiect yn mynd i'r afael â '5 ffordd o weithio' y Ddeddf. Cyhoeddwyd yr enillwyr ym mis Mai 2019.

"Wedi gwthio fy hun y tu hwnt i'm ffiniau cyffyrddus, rwy'n teimlo fel person hollol wahanol."

Un o raddedigion 2018



Digwyddiad Datblygiad Proffesiynol

Daeth Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC) at Academi Wales i ddarparu cymorth datblygiad proffesiynol i'w cymuned o ysgolheigion. Mae'r Gymuned o Ysgolheigion yn hwyluso rhyngweithio a chydweithio rhwng Cymrodorion PhD ac Ôl-ddoethuriaeth, a'u goruchwylwyr a'u mentoriaid.

Mewn digwyddiad datblygiad proffesiynol, a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe, bu Academi Wales yn gweithio gyda RCBC, gan ddefnyddio ein rhaglen 'Magu Perthynas Effeithiol'. Roedd hon yn canolbwyntio ar alluogi'r Cymrodorion i gefnogi eu ffocws cryf mewn polisi ac arfer cyd-gynllunio, gan adeiladu rhwydweithiau a chyfnewid gwybodaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Roedd yn bleser gan Academi Wales gefnogi 'Gwneud Gwahaniaeth', sef Cynhadledd Staff Cyfan gyntaf Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cyflwynwyd araith lawn gennym ar y pwnc 'Cyflwyniad i Gadernid a Gwydnwch Meddwl' a pham mae hynny'n bwysig yn y gweithle, ac yna cyflwyniadau gan Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dr Ruth Hussey, Cadeirydd, Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, am y cyflawniadau a'r heriau i ddod i Gymru.

Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Yn ystod mis Chwefror, daeth clinigwyr ar seithfed garfan ein Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol i ddeuddydd o gymuned ddysgu breswyl – 'Arwain Timau a Phobl'.

Bu'r grŵp yn archwilio dulliau arwain, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin tîm ac, yn bwysicaf oll, yn cael amser i fyfyrwyr ar eu dysgu.

"Penigamp. Gallu gweld proses feddwl pob ymarfer dan sylw a pham."

Un o'r cynrychiolwyr Arweinyddiaeth Feddygol



*"Wedi fy adfer, fy ngrymuso, fy mywiogi –
byddaf yn argymell hyn i bawb!"*

Un o gynrychiolwyr yr Ysgol Aeaf, 2019

Ysgol Aeaf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019

Cynhaliwyd yr wythfed Ysgol Aeaf flynyddol dros bedwar diwrnod yn Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru.

Daeth 40 o arweinwyr atom o'r lefel uchaf ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i glywed gan siaradwyr enwog yn rhyngwladol, ac i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd o ran arweinyddiaeth o'r radd flaenaf drwy theori ac ymarfer.

Thema'r digwyddiad eleni oedd 'Yr Her Arwain – o effeithlon i benigamp'. Roedd yn gyfle i drawsnewid dulliau arwain drwy ddefnyddio gwerthoedd ac ymddygiadau i helpu pobl i weithredu y tu hwnt i'r terfynau a ddychmygant a defnyddio gwir alluoedd i ateb gofynion arwain yn y sector cyhoeddus a bod yn arweinydd cwbl fodern.



Digwyddiadau Paratoi at Brexit

Mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru, cyflenwodd Academi Wales nifer o ddigwyddiadau i aelodau bwrdd anweithredol a chynghorwyr ar eu rôl graffu o ran paratoi at Brexit mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiadau ar y cyd â chyhoeddi Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'".

Gweithdy 'Gallu Perfformiad Uchel', Tîm Gweithredol Heddlu De Cymru

Cyflenwodd Academi Wales weithdy rhyngweithiol gyda'r Tîm Gweithredol i archwilio a dilysu eu harferion arwain a busnes presennol mewn perthynas â nodweddion perfformiad uchel. Nododd y Tîm feysydd allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn iddynt symud ymlaen i sicrhau bod Cynllun Cyflenwi 2018-2021 y Prif Gwnstabl yn cael ei gyflenwi'n effeithiol.



Datblygu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflenwyd gweithdy newydd 'Newid y sgwrs: y cwestiynau i newid y darparu' yng Ngogledd a De Cymru. Datblygwyd a chyflenwyd y gweithdy ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd cyfarfodydd ledled Cymru â sefydliadau partner Academi Wales ar y Rhaglen.

Trafodwyd cynnydd y rhaglen graddedigion a'r heriau sy'n ein hwynebu, a rhannwyd arfer gorau.

Yr uchafbwyntiau penodol oedd trafod sut mae cefnogi amrywiaeth gynyddol yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru a manteision gweithlu mwy amrywiol; sut mae cefnogi graddedigion wrth iddynt symud rhwng sefydliadau a sut mae parhau i sicrhau eu datblygiad.